| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Ymgartrefu - Meithrinfa Toybox |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr, staff meithrinfa, rhieni a phlant |

COLEG CAMBRIA

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Asesiad effaith / Impact assessment* |
| *Effaith ar y Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen: Document Owner:** | **Rheolwr y Feithrinfa /Nursery Manager** | | |
| **Ymgynghoriad/ Consultation:** | Rhestrwch nhw / Please list<br>Staff y Feithrinfa | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo / Date Approved** | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *22/01/2025* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Os yn berthnasol / If applicable |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | Os yn berthnasol / If applicable |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | Os yn berthnasol / If applicable |
| **Dyddiad Adolygu: Review Date:** | 31/01/2028 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Polisïau a Gweithdrefnau Ymgartrefu**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Polisi | 2 |
| 2. | Gweithdrefn | 2 |


**1. Polisi**

1.1 Ein nod yw bod plant yn teimlo'n ddiogel, yn symbyledig ac yn hapus yn y feithrinfa a'u bod yn teimlo'n sicr a chyfforddus gyda phob aelod o staff. Rydym hefyd eisiau i rieni fod â hyder yn llesiant parhaus eu plant a'u rôl fel partneriaid gweithredol, gyda'r plentyn yn gallu elwa o'r hyn sydd gan y feithrinfa i'w gynnig.

1.2 Bydd gan staff ymwybyddiaeth o'r camau gwahanol o ymlyniad ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi plant a theuluoedd wrth iddynt ymgartrefu yn y feithrinfa.

1.3 Ein nod yw cefnogi rhieni a gofalwyr eraill o gynorthwyo eu plant i ymgartrefu'n gyflym ac yn rhwydd trwy ystyried anghenion ac amgylchiadau unigol pob plentyn a'u teuluoedd.

**2. Gweithdrefn**

Bydd staff y feithrinfa yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i ymgartrefu eu plentyn i'r amgylchedd trwy wneud y canlynol:
2.1 Darparu gwybodaeth berthnasol i rieni ynghylch polisïau a gweithdrefnau'r feithrinfa
2.2 Annog y rhieni a'r plant i ymweld â'r feithrinfa yn ystod yr wythnosau cyn i fynediad gael ei gynllunio a threfnu ymweliadau cartref lle bo'n berthnasol
2.3 Cynllunio ymweliadau ymgartrefu a sesiynau cyflwyno (oddeutu 1-2 awr o hyd). Darperir y rhain am ddim am gyfnod o wythnos neu ddwy, yn dibynnu ar anghenion unigol, oedran a cham datblygu
2.4 Croesawu rhieni i aros gyda'u plentyn yn ystod yr wythnosau cyntaf nes i blentyn deimlo'n gartrefol a bod y rhieni'n teimlo'n gyfforddus i adael eu plentyn. Mae ymweliadau ymgartrefu a sesiynau cyflwyno yn allweddol i bontio'n rhwydd ac i sicrhau cyfathrebu'n dda a rhannu gwybodaeth rhwng staff a rhieni
2.5 Tawelu meddyliau rhieni y mae eu plant i weld yn cymryd amser hir i ymgartrefu yn y feithrinfa a llunio cynllun gyda nhw
2.6 Annog rhieni, lle bo hynny'n briodol, i wahanu eu hunain oddi wrth eu plant am gyfnod byr yn gyntaf, yn estyn y rhain yn raddol i absenoldebau hirach
2.7 Dyrannu gweithiwr allweddol i bob plentyn a'i deulu, cyn iddo/iddi ddechrau mynd i'r feithrinfa. Mae'r gweithiwr allweddol yn croesawu ac yn gofalu am y plentyn gan sicrhau bod ei ofal wedi'i deilwra i ddiwallu ei anghenion unigol. Mae'n cynnig perthynas sefydlog i'r plentyn ac yn meithrin perthynas gyda'i rieni yn ystod y cyfnod ymgartrefu a thrwy gydol ei amser yn y feithrinfa, er mwyn sicrhau bod gan y teulu unigolyn cyswllt cyfarwydd i gynorthwyo gyda'r broses ymgartrefu
2.8 Pennu cyfaill/gweithiwr allweddol wrth gefn i bob plentyn rhag ofn nad yw'r gweithiwr allweddol ar gael. Bydd rhieni'n cael gwybod hyn er mwyn cynorthwyo'r broses ymgartrefu ac ymlyniad
2.9 Gwerthuso'r gweithiwr allweddol a bennwyd i weld a yw'r plentyn yn bondio gydag aelod arall o staff i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu cefnogi
2.10 Parchu amgylchiadau pob teulu, gan gynnwys y rhai hynny na allant aros am amser hir yn y feithrinfa a thawelu eu meddyliau o ran cynnydd y plentyn tuag at ymgartrefu
Peidio â mynd â'r plentyn allan o'r feithrinfa nes iddo ymgartrefu'n llwyr